# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Brifysgolion: Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Dydd Mercher 24 Tachwedd
18.00-19.30
*Cynhaliwyd y cyfarfod ar MS Teams*

**Yn bresennol**

Hefin David AS (Cadeirydd)

Jeremy Miles AS, Gweinidog Addysg

Sioned Williams AS

Huw Irranca-Davies AS

Alex Still, Uwch-gynghorydd

Naomi Stocks, Clerc y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Ryland Doyle (ar ran Mike Hedges AS)

Dr Sarah Morse, Cymdeithas Ddysgedig Cymru

David Blaney, CCAUC

Bethan Owen, CCAUC

Ioan Matthews, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Jamie Insole - UCU

Becky Ricketts, UCM Cymru

Jeremy Harvey, UCM Cymru

Yr Athro Elizabeth Treasure, Cadeirydd Prifysgolion Cymru

Yr Athro Maria Hinfelaar, Is-gadeirydd Prifysgolion Cymru

Yr Athro Iwan Davies

Yr Athro Cara Aitchison

Louise Casella

Dr Ben Calvert

Melanie Rimmer, Prifysgol Caerdydd

Dr Chris Marshall, Prifysgol Abertawe

Amanda Wilkinson

Kieron Rees

Ben Arnold

Sophie Douglas

## Cofnodion

1. Croeso a chyflwyniad gan y Cadeirydd – Diolchodd Hefin David AS i'r rhai a oedd yn bresennol am ddod i'r cyfarfod, gan nodi cynrychiolaeth gref o'r sector, a chroesawodd y Gweinidog Addysg i'r cyfarfod.
2. Sylwadau agoriadol – eglurodd y Gweinidog Addysg gyd-destun y Bil a'i nodau ar gyfer y dyfodol, sef sicrhau bod systemau a strwythurau ar waith fel y bydd y sector trydyddol yn barod am heriau'r dyfodol.
3. Sylwadau agoriadol – Cytunodd yr Athro Elizabeth Treasure, Cadeirydd Prifysgolion Cymru, ag asesiad y Gweinidog Addysg o heriau y bydd y wlad yn eu hwynebu yn y dyfodol, ac fe nododd y bydd angen sgiliau lefel uwch, a rhaid inni sicrhau bod y bobl iawn yn gallu cael mynediad at yr addysg a'r hyfforddiant cywir, a hynny ar yr adeg iawn yn eu bywydau, i'w galluogi i ffynnu.
4. Cyflwyniad ar y Bil ADY- rhoes Kieron Rees gyflwyniad ar y cefndir a'r newidiadau cyffredinol y bydd y Bil yn eu hachosi i'r sector.
5. Trafodaeth – cadeiriodd Hefin David AS y drafodaeth, gan ofyn i randdeiliaid i rannu eu barn am y Bil.
    - Becky Ricketts - Llywydd, UCM Cymru
        - I raddau helaeth, mae UCM Cymru o blaid y Bil a'r rhan fwyaf o'i fanylion
        - Wedi dweud hynny, mae cwpl o feysydd lle mae angen eglurhad neu drafodaeth fanylach: nid yw llais y myfyriwr wrth wraidd y Bil fel yr addawyd yn wreiddiol, dau welliant penodol a gynigiwyd i Lywodraeth Cymru;

- Hepgorwyd y gair myfyriwr/y dewis o blaid ‘dysgwr’ – hoffai UCM Cymru weld y geiriau ‘myfyriwr’ a ‘prentis’ yn cael eu hymgorffori i adlewyrchu amrywiaeth y profiadau addysgol.

- Ioan Matthews - y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
    - Mae’r Coleg yn croesawu’r Bil a’r darpariaethau cyfrwng Cymraeg ynddo, yn enwedig cynllunio gweledigaeth strategol.
    - Hoffai'r Coleg weld pwyslais ar ysgogi’r galw’n rhagweithiol yn hytrach nag ymateb iddo.
- David Blaney - CCAUC
    - Mae CCAUC yn cydnabod ei bod yn gwneud synnwyr i gael dull gweithredu ôl-orfodol
    - Mewn rhai mannau, mae CCAUC yn teimlo nad yw'r ymdrechion presennol yn mynd yn ddigon pell i gysoni'r sector
    - Mae'r amserlenni’n dynn, ac mae'n anochel y bydd datblygu peirianwaith newydd i stad weithredol yn cymryd amser. Yn achos Deddf 2015, cymerodd 3 i 4 blynedd i fod yn gwbl weithredol – mae gwahaniaeth rhwng cael peirianwaith rheoleiddio i fod yn gwbl weithredol ar y naill law a sefydlu’r corff ar y llaw arall.
- Jamie Insole - UCU
    - Mae UCU yn croesawu'r Bil, ac yn teimlo ei fod yn darparu'r sgaffald ar gyfer comisiynu ystwyth a hyblyg.
    - Rhai awgrymiadau technegol: mae UCU yn awgrymu y gallai partneriaeth gymdeithasol fod ymysg yr egwyddorion cyffredinol yn Rhan 1.
    - Gallai diffinio rhyddid academaidd fel rhyddid unigol i lefaru gael ei ystyried ychydig yn llai pwysfawr, yn sicr o ran ei werth i ymchwil ac economi Cymru.
- Huw Irranca-Davies AS
    - Mae llawer o etholwyr yr Aelod yn mynd i brifysgolion Caerdydd/Abertawe/De Cymru (a thu hwnt); hefyd, mae Coleg Penybont yn etholaeth yr Aelod. O’i gael yn iawn, beth y bydd y ddeddfwriaeth yn ei wneud yn ei hanfod ar gyfer cyfleoedd bywyd myfyrwyr yng Ngholeg Penybont, y myfyrwyr chweched dosbarth,

sy'n ystyried mynd i'r brifysgol? A fydd yn fwy llyfn ei naws, gyda llwybrau clir? Nid o ran academia pur, yn unig ond hefyd o ran llwybrau galwedigaethol, yn y sgiliau y bydd eu hangen arnom at y dyfodol, sut y bydd hyn yn wahanol?

- Cododd aelodau Prifysgolion Cymru’r pwyntiau a ganlyn:
  - Rhyddid academaidd ac ymreolaeth sefydliadol – rydym yn croesawu’r diwygiadau a wnaed ers y drafft cyntaf
  - Mae lle i fynd ychydig ymhellach ar rai pwyntiau – mae’r diffiniad o ryddid academaidd wedi’i gyfyngu ar hyn o bryd i weithgarwch addysgu (boed yn fwriadol ai peidio)
  - O ystyried ehangder yr oruchwyliaeth sydd gan y rheoleiddiwr a’r gweithgareddau amrywiol yn hynny o beth, byddem yn ceisio ymgysylltu â’r Comisiwn a chael eglurder ynglŷn â sut y bydd yn sicrhau cyllid cytbwys, gan gynnwys arloesi, ymchwil, a’r mecanwaith a ddefnyddir ganddo i sefydlu tryloywder yn sector drwyddo draw.
  - Nid yw’r Bil ohono ei hun yn berthnasol i’r Brifysgol Agored yng Nghymru.
  - Croesewir y ddarpariaeth i reoleiddio darpariaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru, ond mae llawer o fanylion i’w hystyried eto mewn byr o dro.
  - Mae angen sicrhau bod gan dîm Llywodraeth Cymru ddigon o adnoddau i beidio â dyblygu baich rheoleiddio.
  - Trafodaeth ynghylch y rhesymeg dros gadw darpariaethau’n ymwneud â chorfforaethau addysg uwch a phryderon ynghylch yr argraff o greu system ddwy haen.
  - Pwynt cyffredinol – gwead y Bil, yr angen i sicrhau nad ydym dan anfantais o ran datblygiadau yn Lloegr, i sicrhau nad ydym dan anfantais gystadleuol. Sut y gallai’r Ddeddf Marchnad Fewnol effeithio ar y Bil ei hun?
  - Cwestiwn ynghylch naw dyletswydd strategol: rydym yn eu croesawu ond, fel y’i hysgrifennwyd nid oes gan yr un ohonynt bwyslais penodol ar ymchwil ac arloesi – a oes lle i gynnwys 10fed dyletswydd i hyrwyddo ymchwil ac arloesi?

        - Mae’n angenrheidiol cadw golwg ar yr hyn sy'n digwydd dros y ffin, yn enwedig o safbwynt Wrecsam sydd mor agos at y ffin; mae angen rhywfaint o gydgysylltu rhwng Cymru a sector y DU.
        - Mae angen i waith diogelu at y dyfodol sicrhau ein bod mewn sefyllfa dda a’n bod yn gallu cystadlu yn y DU ar ei newydd wedd.
        - Mae’r Bil yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd – prentisiaethau gradd, cymwysterau annibynnol L4 ac L5 neu gamu ymlaen i raddau, micro-gymhwysterau – darparu yn y man iawn ar yr amser iawn, ac ar yr adeg iawn ym mywydau pobl.
        - Gofal cymdeithasol, er enghraifft – rhaglen hyfforddiant galwedigaethol mewn addysg bellach, hyfforddiant rheoli mewn prifysgol, neu drywydd prentisiaeth gradd.
        - Bydd y Bil yn hwyluso’r cydweithio hwn ac mae’n gyfle go iawn.
        - Mae prifysgolion yn endidau academaidd, ond maent yn gwneud llawer o hyfforddiant galwedigaethol.
    - Hefin David AS
        - Sut bydd perthynas Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch â'r Comisiwn newydd yn cael ei disgrifio? Nid yw ASA yn cael ei henwi yn y Bil fel corff penodol; sut y bydd y berthynas honno'n datblygu?

6. Ymateb – ymatebodd y Gweinidog Addysg i’r cwestiynau a’r sylwadau a godwyd.
    - Nododd y Gweinidog fod themâu cyson – ar lefel facro, mae’r drafodaeth yn taflu goleuni ar rai o’r tensiynau angenrheidiol y mae llunio deddfwriaeth yn eu hamlygu – penodoldeb yn erbyn hyblygrwydd o ran diogelu at y dyfodol, cwestiynau ynghylch rhyddid yn erbyn atebolrwydd a rheoleiddio – mae’r drafodaeth hon yn ficrocosm o’r modd y cysonir yr egwyddorion cyfreithlon ond cystadleuol hyn.
    - Mae pwynt macro i’w wneud ar y dechrau – ynghylch natur hyd braich y Comisiwn – yn y bôn, y sail ar gyfer ymdrin â deddfwriaeth yw bod trosglwyddiad sylweddol iawn o bŵer oddi wrth y Llywodraeth i gorff hyd braich, sef y corff cyhoeddus mwyaf yng Nghymru, ac eithrio’r GIG, a chanddo gyllideb sylweddol iawn, felly mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng rhyddid y corff newydd a’r atebolrwydd priodol – mae’r Gweinidog yn agored i drafod y cydbwysedd hwnnw.

- Rhyddid academaidd ac ymreolaeth sefydliadol – dwy ddarpariaeth ar wahân yn y Bil ar ryddid academaidd ar y naill law, a rhyddid barn ar y llaw arall. O ran diffyg cyfeiriad penodol at fod yn berthnasol i ymchwil ac arloesi, yn sicr bwriedir ei gymhwyso yma; gellir ei wneud yn fwy amlwg os yw rhanddeiliaid yn teimlo bod angen hynny.
- Mae'r Bil yn cynnwys ystod o ddarpariaethau arwyddocaol ar ymreolaeth sefydliadol – rhyddid i gynllunio/cyflawni derbyniadau, darpariaeth cyrsiau, penodi staff, ddim yn siŵr sut olwg fyddai ar ddarpariaeth eang, ond yn hapus i barhau i drafod hynny â chydweithwyr – os oes cynigion penodol y byddent yn eu hargymell.
- Mae gofynion a chyfyngiadau yn y Bil ar allu Gweinidogion i osod telerau ac amodau, ac mae darpariaethau sy'n eu galluogi i neilltuo cyllid at ddibenion penodol, ond nid oes mecanwaith a all ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gyflawni hynny.
- Gwahaniaethau o gymharu â Deddf 1992, a ddyfynnwyd gan gydweithwyr – penderfyniad pendant i symud ymaith o hynny, i foderneiddio'r trefniadau
- Ariannu cytbwys – mae tryloywder y trefniadau ariannu yn hanfodol ac fe gynlluniwyd y Comisiwn i gyflawni hynny; mae'r weithred honno o dryloywder yn fachyn i sefydliadau gyflwyno'r achos mewn perthynas â chyllid. Hapus i drafod ymhellach os yw rhanddeiliaid yn teimlo nad yw hynny'n ddigonol.
- Corfforaethau Addysg Uwch - Dealltwriaeth a bwriad y Gweinidog yw i'r pwerau presennol gael eu hailadrodd yn y Bil i bob pwrpas; nid yw'r Gweinidog ei hun yn ei weld yn 'achos o gryfhau', er bod rhai ychwanegiadau ato. Ar nodyn technegol, pwynt pwysicach yw bod bwriad llwyr i'r rhain fod yn ddarpariaethau os metha popeth arall, yn ddarostyngedig i ofynion llawn cyfraith gyhoeddus. Mae'r Gweinidog yn canfod pryder ymhlith cydweithwyr ynghylch y graddau y mae'r pwerau'n rhai os metha popeth arall. Os gellir gwneud unrhyw beth i roi mwy o sicrwydd mewn perthynas â hynny, mae'r Gweinidog yn fodlon trafod â chydweithwyr.
- Mae gwaith gan Gomisiwn y Gyfraith yn hyn o beth yn argymell codi'r darpariaethau hyn; mae pŵer yn y Bil i ddiwygio'r rheoliadau hyn, yn

seiliedig ar bryderon rhanddeiliaid, er mwyn osgoi codi llawer o bwerau ar yr un pryd.

- Llais myfyrwyr - mae swyddogion yn gweithio gydag UCM ar hyn, a bydd y Gweinidog yn sicrhau y bydd y pwynt ar ddrafftio terminoleg, sef y defnydd o'r gair 'dysgwr' yn erbyn 'myfyriwr', yn cael ei basio ymlaen.
- Effaith – byddwn wedi methu os na fydd gan ddysgwyr lwybr clir iawn ym maes addysg cyn-16 a dealltwriaeth o'r amrywiaeth o opsiynau yn y sector ôl-16; bydd Bill yn ein helpu i wneud yn siŵr bod lefel well o ddarpariaeth yn y Gymraeg, a bydd dysgwyr yn gallu hyderu bod ganddynt brentisiaeth sy'n ymateb i anghenion newidiol yr economi leol/genedlaethol, wedi'i dylunio ar y cyd â rhanddeiliaid.
- Cyfrwng Cymraeg – yn sicr, derbynnir y pwynt nad yw'n diwallu angen yn unig ond hefyd yn ysgogi awydd am addysg bellach ac addysg uwch yn Gymraeg.
- Yr uchelgais yw y bydd y Comisiwn yn cael ei roi ar waith y tu hwnt i 2023.
- Materion trawsffiniol – cytuno'n llwyr bod yn rhaid i ni fod yn ofalgar, ond mae profiad yn awgrymu bod aros am eglurder mewn mannau eraill yr un mor heriol; egwyddor diogelu at y dyfodol.
- O ran Deddf y Farchnad Fewnol, mae'r Gweinidog yn fodlon bod hyn yn gydnaws, ond mae'n ymwybodol bod y ddeddfwriaeth yn sylweddol ei chyrraedd.
- Ymchwil – mae'r Gweinidog yn hapus i siarad rhagor am ddyletswydd benodol i hyrwyddo ymchwil ac arloesi
- Ansawdd – esboniodd y Gweinidog fod y rhesymeg dros y manylder ynghylch Estyn yn y Bil yn angenrheidiol er mwyn atgynhyrchu darpariaethau presennol. Mater i'r Comisiwn yw penodi'r corff ansawdd; dyna felly nad enwyd ASA. [Nododd Hefin David MS mewn ymateb mai ASA yw'r unig gorff yn y DU sydd wedi'i achredu gan ENQA ac felly mae'n debygol mai hwn fydd y corff dynodedig]

7. Hefin David AS – mae'r Bil yn rhan o gytundeb Plaid Cymru/Llafur – felly a fydd ei hynt drwy'r Senedd yn weddol rwydd?
    - Gweinidog – adlewyrchir uchelgeisiau a rennir, a'r disgwyl yw y byddwn am sicrhau rhwydd hynt i'r Bil.

8. Sioned Williams AS – roedd hyn ym maniffesto Plaid Cymru; mae'n ddyhead rydym yn ei rannu, a byddwn yn cydweithio i wneud y Bil yn llwyddiant.
9. Cloi'r cyfarfod a chytuno ar gamau gweithredu – Hefin David AS
    - Mae'r Gweinidog wedi gwrando ar safbwyntiau ac mae wedi ymateb iddynt; mae'n amlwg bod y Gweinidog wedi bod yn gwrando ar hyd y daith hefyd – mae'n amlwg bod y drws ar agor o hyd, mae'r gwaith yn parhau.
    - Y Gweinidog Addysg – pwynt wrth gloi – mae gan y Bil hwn gefnogaeth yn gyffredinol, ond fe godwyd pwyntiau penodol ac mae'n agored i'w trafod ymhellach i roi sicrwydd ac eglurhad.
    - Hefin David AS – pwyntiau gweithredu sy'n deillio o'r Grŵp Trawsbleidiol yw trosglwyddo'r mater i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, er mwyn parhau â'r ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth i'r Bil fynd drwy'r Senedd.
    - Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog Addysg am ddod i'r cyfarfod ac am roi adborth ar yr holl bwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Brifysgolion ddydd Mercher 2 Chwefror, 12.15-13.15.